

995)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader --Tachwedd 16eg/16/11/15—7.30pm.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present: Val Davies(cadeirydd) Glyn Jones,Raymond Lewis,Eirian Jones,Marc Jones,Keith Lewis,Annette Davies,Yvonne Griffiths,Sian Thomas,Melfyn Evans,C.Sir Linda Evans.

Clerc: Anita Evans,Ymddiheuriadau:neb,Absennol:Lynn Evans.Cyfieithydd:Hefin Jones.Ymwelwyr:4.

Croesawyd pawb gan Val Davies,y cadeirydd.Dim presennoldeb yr Heddlu;dim datgan diddordeb gan y Cynghorwyr;dim gwybodaeth newydd oddiwrth yr ymwelwyr.Val Davies chaired the meeting and welcomed everyone.No Police presence;no declaration of interest;no new information given by visitors.

1)Cofnodion mis Hydref:cafwyd yn gywir—Eirian Jones ac Yvonne Griffiths/Oct.minutes found to be a true record.

2)Materion yn codi:

a)Cyfleusterau Alltwalis—penderfynwyd gofyn i Rhys Davies(C.S.Gâr)ddod mas i weld cyflwr y safle.We will ask the officer in charge from C.C.C.to meet Councillors on site to inspect the site at Alltwalis Conveniences.

b)Seddau:mae tair ar ol—gosodir un o flaen Bryn Teifi,Llanfihangel,ac un i'r chwith o fynedfa Modurdy Dolgran.Mae posibilrwydd o roi un ger yr Eglwys yn Llanfihangel.Two of the remaining benches will be placed at Bryn Teifi,and near the garage in Dolgran.Possibly the third will be placed near Llanfihangel ar arth Church.

c)Cais am balmant i Dremle: derbyniwyd llythyr oddiwrth Mathew Howells(C.S.G.)i'n hysbysebu ein bod wedi llwyddo i fynd ymlaen i'r gris nesa i gael cyllid oddiwrth y Cynulliad.Pwysleisir nad yw hyn yn arwydd pendant y bydd ein cais yn llwyddiannus.Our application under Safe Routes in the Community for a pavement from Cwmgwen to Tremle has passed the first stage;however this does not mean that we will succeed to achieve our aim.

ch)Tabernacl—wedi holi John McEvoy am y posibilrwydd o symud yr arwydd 20mya yn nes at y wal,ond yr ateb oedd nad yw'n bosib oherwydd sylfaen y wal,a'r gwasanaethau dŵr a thrydan.Problem with moving the 20mph sign on the pavement outside Tabernacle Chapel nearer the wall because of footings and utilities.

d)Rhiw Alltwalis -Cyngor Sir yn trefnu cyfarfod ar y safle/site meeting arranged by the County Council for Alltwalis hill

dd)Mynwent Troedyrhiw-Bydd Ken Thomas yn y cyfarfod nesa er mwyn i'r Cyngor gael dangos ei gwerthfawrogiad ar ei ymddeoliad o dorri'r Fynwent.Codwyd y mater o swyddog newydd,a nodwyd taw Haydn Jones sy'n cael ei gyflogi gyda'r Cyngor,felly cynnigir y gwaith iddo.Ken Thomas will attend the next meeting so that this Council can show appreciation on his retirement from being groundsman at Alltwalis Cemetery.Haydn Jones will be offered the post.

3)Adroddiad ariannol/financial report:cafwyd yn gywir/passed as correct—A.Davies/R.Lewis.Bilie i'w talu/bills to be paid:cyflogau/wages:£747.01;Trywydd(translation)-£56.40;HMRC--£186.80;Web's Wonder—£560.00;Costau'r Clerc/costs o 30/07 i 12/10-£42.10.Pasiwyd i'w talu/these are to be paid—Y.Griffiths/E.Jones.

Gweddill yn y Banc 24/11/15—bank reconciliation:£72,325.97.

996) 4)Cynllunio/planning:(gadawodd C.S.L.Evans yr ystafell/C.C.L.Evans left the room).

W/32909----discharge of conditions on aviation lighting,landscape design scheme,badgers and reptiles,and tv reception—land at Wern for Seren Renewables.

Doedd dim sylwadau/no comments on the above.

5)Gohebiaeth/Correspondence—C.Sir Gâr(Carm.C.C.)

a)Pwyllgor ardal yn yr Atom nos Fawrth 17eg,a chofnodion y cyfarfod blaenorol/area meeting with One Voice Wales 17/11 in the Atom Carmarthen.

b)Holiadur Cyfleoedd Chwarae/play sufficiency assessment.

c)Newyddion Cymunedol—Community news—poster will be placed in a noticeboard.

ch)Fforwm Strategaeth Parc y Sgarlets/Local Service Board—meeting 1/12/15.

Eraill/Other:

d)Awdurdod Tân ac Achub—cynllun gwella blynyddol/Fire and Rescue—draft annual improvement plan-can be seen www.mawwfire.gov.uk.

dd)Bwrdd Iechyd—llyfryn ar Iechyd Meddwl/Health Board—booklet on Mental Health.

e)Age Cymru Sir Gâr—gwahoddiad/invitation to the AGM 1/12/15 10am-Diplomat Llanelli.

f)Statkraft—cadarnhâd ein bod wedi llwyddo i gael cyllid i ad-newyddu'r Cornel Chwarae ym Mhencader/confirmation of our success in achieving funding for the Play Corner in Pencader.

ff)RWE—cylchlythyr misol/monthly news sheet.

g)U.LL.C—holiadur byr am ein profiadau gyda'r sefydliad/short questionnaire on our experiences with One Voice W.

ng)HSBC—forms to fill for our European Tax Status.

6)Sylwadau'r Cyngorwyr/Councillors'information:

Melfyn Evans—yn tynnu sylw fod Kevin Davies,Llandysul wedi rhoi 25 mlynedd o wasanaeth i'r Frigad Dan leol,ac yn awgrymmu y byddai gair o ddiolch oddiwrth y Cyngor yma yn addas.Gresyn yw dweud fod rhai unigolion wedi bod yn codi cloriau'r draeniau sy ar yr hewl fawr(mae'n edrych yn debyg er mwyn atal y dwr i fynd ar eu tir nhw).Mae hyn yn weithred anghyfrifol iawn.Mae wedi digwydd ar ben hewl Lan Gwyddgrug,ac ar hewl y mynydd allan o New Inn.Suggests sending thanks from this Council to Kevin Davies,Llandysul who has completed 25years service with the local Fire Service.Unfortunately some individuals have been raising the manhole covers near Lan Farm,and on the mountain road from New Inn.This results in danger to drivers,and is being reported to the C.Council.

Marc Jones---llyfogydd Alltwalis/flood on road.

Eirian Jones—sbwriel yn broblem/fly-tipping a big problem,road from the old school in Pencader onto the Hebron Rd.

Glyn Jones—draeniau angen sylw,a'r goeden ar dir Llwyn sy'n goleddu dros yr hewl fawr ym Mhencader—drains need attention,and nothing has been done regarding the overhanging tree from Llwyn land.

997) Sylwadau/observations:

Keith Lewis---hewl Dolgran mewn cyflwr gwael o hyd;postyn ffon ar hewl Alltwalis.Dolgran Rd.in need of repairing;Alltwalis rd.—wire hanging from a post on the main road.

Annette Davies—dwr yn cronni ar hewl Tanfforddougou/water on road;postyn BT ar hewl Glantweli Fach dal heb gael sylw/BT pole still not upright.

Val Davies—manholes from Penlan to Pencader need clearing;

Sian Thomas—yn gofidio am arwyddion damwain ar y ffordd yn cael eu gadael ar ôl am sbel,ac yn chwythu mas i'r ffordd fawr/problem with road accident signs being left on site for a long time,and as a result blown onto highways.

Clerc—am ddiolch i bawb gymerodd ran yng Nghwasanaeth y Cadoediad/thanks to everyone who took part in the Remembrance Day Service.

Daeth Darren Moore ar ôl y cyfarfod ,ac fe gwblhawyd y gwaith papur i gyd ar gyfer newidiadau'r Cornel Chwarae/the paper work for the refurbishment of the Play Corner in Pencader has been finalised.The work will start in the New Year.